# I'r dref



Tric a Chlic 3




Mae Siôn yn siarad ar y ffôn.
“Dere Siôn, brysia. Rydyn
ni eisiau mynd i'r dref,”
dywedodd Sianco, ei ffrind.





Mae Siôn yn gorffen siarad
ac yn taflu ei fag dros ei
ysgwydd.



Aeth y ddau allan o'r tŷ.





Aeth y ddau i ddal y bws i'r dref.




Yna, aeth y ddau i'r parc –
siglo, siglo ar y siglen ...





ac i lawr y sleid yn sydyn.




“Ble nesaf?” gofynnodd Sianco.
“I siopa,” atebodd Siôn.





Cerddodd y ddau ling di long i lawr y stryd.



"Ble nesaf?" gofynnodd Sianco.
"I'r sinema," atebodd Siôn.





Rhedodd y ddau fel y gwynt i lawr y stryd.